


Canfod Tirweddau Calchfaen Discovering Limestone Landscapes



**Bryniau Clwyd a
Dyffryn Dyfrdwy**
Clwydian Range
and Dee Valley

Ardal o Harddwch Natïrïol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

DGordman
01-17

Tirweddau Dramatig, Neilltuol

Dramatic, Distinctive Landscapes


Mae Calchfaen yn fath hynod o graig sy'n ffurfio rhai o dirweddau mwyaf unigryw Prydain.

Mae enghreifftiau gwyh o'r golygfeydd dramatig hyn o fewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, ar Greigiau Eglwyseg, Bryn Alyn, Bryn Prestatyn a Pharc Gwledig Loggerheads.

Limestone is a remarkable rock that forms some of Britain's most distinctive landscapes. Magnificent examples of this dramatic scenery lie within the Clwydian Range and Dee Valley Area of Outstanding Natural Beauty (AONB), at Creigiau Eglwyseg, Bryn Alyn, Prestatyn Hillside and Loggerheads Country Park.

Lluniwyd gan Graig

Mae'r graig o dan ein traed yn dylanwadu'n drwm ar siâp y tir. Creigiau Silwraidd caled sy'n ffurfio copaon rhostiroedd uchel Bryniau Clwyd, tra bod iseldir Dyffryn Clwyd wedi ei seilio ar dywodfaen Permo-Triasig mwy meddal. Mae calchfaen yn sail i olygfeydd unigryw, a nodweddir gan glogwyni trawiadol, llethrau sgri creigiog, palmentydd garw, ogofâu cudd a dyffrynnoedd sych ysgubol. Mae'r graig hefyd yn dylanwadu ar ble mae pobl yn gwneud eu cartrefi, sut y maent yn gwneud bywoliaeth a'r amgylchedd naturiol cyfoethog sydd o'u cwmpas.



Oedran y creigiau Age of rocks

-  Permo-Triasig (299-201 mof*)
Permo-Triassic (299-201 mya†)
-  Uwch Carbonifferaidd (330-229 mof)
Upper Carboniferous (330-229 mya)
-  Is Carbonifferaidd (330-229 mof)
Lower Carboniferous Limestone (359-330mya)
-  Silwraidd neu hyn (419 mof neu hyn)
Silurian or older (419mya or older)

* miliwn o flynyddoedd yn ôl † million years ago



Shaped by Rock


Underlying bedrock heavily influences the shape of the land. Hard Silurian rocks form the high moorland summits of the Clwydian Range, while the low-lying Vale of Clwyd is based on softer Permo-Triassic sandstone. Limestone gives rise to its own unique type of scenery, characterised by spectacular cliffs, rocky scree slopes, rugged pavements, hidden caves and sweeping dry valleys. The rock also influences where people build their homes, how they make a living and the rich natural environment that surrounds them.

Darganfod a Chrwydro

Mae'r llyfryn hwn yn cyflwyno rhinweddau arbennig calchfaen, lle mae straeon am ddaear, ffordd o fyw, diwydiant a natur yn cyd-blethu. Gallwch ddarganfod y rhain dros och eich hun, trwy grwydro rhai o'r ardaloedd calchfaen arbennig iawn a gyfeirir atynt ar y tudalennau i ddod.

Discover and Explore

This booklet introduces the fascinating world of limestone, where stories of geology, lifestyle, industry and nature are entwined. You can discover these for yourself, by exploring some of the very special limestone places mentioned on the pages ahead.



Llunio'r Golygfeydd


Shaping the Scenery

Cymru Drofannol

350 miliwn o flynyddoedd yn ôl, yn y Cyfnod Carbonifferaidd, roedd "Cymru" yn rhan o ehangdir hynafol yn y trofannau, lle'r oedd moroedd trofannol yn llawn bywyd. Setlodd weddillion y creaduriaid hyn ar wely'r môr mwdlyd, gan gronni'n drwch enfawr o waddodion, a gywasgodd yn raddol i mewn i haenau o Galchfaen Carbonifferaidd. Ers hynny mae prosesau tectonig wedi symud "Cymru" yn araf i'w lledred cyfredol.

Tropical Wales

350 million years ago, during the Carboniferous Period, "Wales" was part of an ancient landmass in the tropics, where tropical seas teemed with life. The remains of these creatures settled on the muddy sea floor, building up a vast thickness of sediment, which gradually compacted into layers of Carboniferous Limestone. Since then tectonic processes have slowly moved "Wales" to its current latitude.



Ymgodiad ac Erydiad

Yn ystod cyfnodau o ffurfio mynyddoedd, ffurfiwyd toriadau yng nghramen y ddaear a chodwyd y tiroedd hyn yn uwch fyth. Unwaith y daethant yn agored i'r elfennau, cawsant eu cerflunio gan rew a dŵr i mewn i'r golygfeydd heddiw.

Uplift and Erosion

During periods of mountain building, folding and faulting of the earth's crust fractured the limestone and raised these lands to greater heights. Once exposed to the elements, ice and water sculpted them into today's scenery.


Blynyddoedd
yn ôl
Years ago

350-320 miliwn
million

Calchfaen yn ffurfio mewn moroedd trofannol
Limestone forms in tropical seas

300-250 miliwn
million

Plygu a ffawtio yn codi'r tir
Folding & faulting uplift the land



© Peter Appleton

Allwedd Key

- | | |
|--|---|
| a Palmant calchfaen
Limestone pavement | f Ogof
Cave |
| b Clogwyn calchfaen
Limestone cliff | g Twll llyncu
Sink hole |
| c Ffynnon ddŵr
Spring | h Lefel trwythiad dŵr
Water Table |
| d Ceunant
Gorge | i Craig anhydraidd
Impermeable rock |
| e Dyffryn sych
Dry valley | j Sgri
Scree |

Tirffurfiau o Galchfaen Carbonifferaidd

Landforms of Carboniferous Limestone

Treftadaeth Ddaearegol

Caiff pwysigrwydd y ddaeareg hon ei meithrin gan grŵp Safleoedd Ddaearegol o Bwysigrwydd Rhanbarthol Gogledd-ddwyrain Cymru (RIGS), cangen leol o fudiad ledled y DU i warchod a hybu geoamrywiaeth.

Geological Heritage

The importance of this geology is fostered by the North East Wales Regionally Important Geodiversity Sites (RIGS) group, a local branch of a UK-wide movement to conserve and promote geodiversity.

Tirffurfiau Eiconig

Mae calchfaen yn gyfoethog mewn calsiwm carbonad, sy'n toddi mewn dŵr glaw, gan achosi erydiad cemegol yng ngwendidau yn y graig. Yn raddol, mae'r broses hon wedi arwain at greu tirffurfiau calchfaen nodweddiadol, fel clogwyni, palmentydd ac ogofâu.

Iconic Landforms

Limestone is rich in calcium carbonate, which is soluble in rainwater, allowing chemical erosion along weaknesses in the rock. Gradually this process has led to the formation of typical limestone landforms, such as cliffs, pavements and caves.



© Ivor Coleman

30,000 - 15,000

Rhwelifoedd yn sgwrio'r dirwedd
Glaciers scour the landscape

15,000 - presennol
present


Golygfeydd a'r tywydd yn siapia golygfeydd heddiw
Rivers and weather shape today's scenery

Bywyd ar Galchfaen

Life on Limestone


Mae'r bobl sy'n byw yma wedi dylanwadu'n fawr ar gymeriad y tir hwn.

The character of this land has been hugely influenced by the people living here.



*Gên uchaf arth frown o Ogof Pontnewydd
Brown Bear upper jaw from Pontnewydd Cave*

*Offer
Neanderthal
Neanderthal
tools*



*Neanderthaliaid yn Ogof Pontnewydd
Neanderthals at Pontnewydd Cave*

Neanderthaliaid Cynharaf

Darganfuwyd y dystiolaeth gynharaf o fywyd dynol yng Nghymru yn ogof galchfaen Pontnewydd, ger Llanelwy. Mae hyn yn dangos bod pobl Neanderthalaidd yn byw ac yn hela ar draws y tiroedd hyn dros ddau gan mil o flynyddoedd yn ôl.

Earliest Neanderthals

The earliest evidence of human life in Wales has been discovered at Pontnewydd limestone cave, near St Asaph. This indicates that Neanderthal people lived and hunted across these lands over two hundred thousand years ago.

**Blynyddoedd
yn ôl
Years ago**

230,000

Neanderthaliaid yn byw yn GDD Cymru
Neanderthals living in NE Wales

4,000

Adeiladwyd carn ar Fryn Gop
Gop Hill cairn constructed

Tomen Enigmatig

Carn Gop, ar y bryn calchfaen uwchben Trelawnyd, yw'r domen fwyaf i gael ei chreu gan bobl gynhanesyddol yng Nghymru. Pam y cafodd ei adeiladu? Y ddamcaniaeth fwyaf credadwy yw ei fod yn nodi safle yr ogof ar y bryn isod, safle o gladdedigaethau dynol o Oes y Cerrig.

Enigmatic Mound

Gop Cairn, on the limestone hill above Trelawnyd, is the largest mound made by prehistoric people in Wales. Why was it built? The most plausible theory is that it was a marker for the cave on the hillside below, a site of Stone Age human burials.

Waliau Cerrig Sych

Mae waliau calchfaen yn croesi bryniau agored Marian Ffrith a Bryn Alyn. Maent yn cynnig cysgod i ddefaid ac yn rhannu tir pori, mae'r nodweddion cyfarwydd hyn yn cyfrannu at gymeriad unigryw'r dirwedd hon.

Dry Stone Walls

Limestone walls criss-cross the open hillsides of Marian Ffrith and Bryn Alyn. Providing shelter for sheep and dividing grazing land, these familiar features contribute to the distinctive character of this landscape.



Pentrefi calchfaen

Ers canrifoedd mae pobl wedi gwerthfawrogi calchfaen fel deunydd adeiladu. Gallwch weld hyn heddiw ym mhentrefi deniadol Llanarmon-yn-lâl, Gwaenysgor a Cilcain, lle mae llawer o dai, eglwysi, tafarndai, pontydd a ffermydd wedi eu creu o galchfaen.

Limestone Villages

For centuries people have valued limestone as a construction material. You can see this today in the attractive villages of Llanarmon-yn-lâl, Gwaenysgor and Cilcain, where many houses, churches, pubs, bridges and farms are limestone-built.



2,000

Rhufeiniaid yn ymgartrefu ym Mhrestatyn
Romans settle at Prestatyn

1,000

Sefydlwyd pentrefi calchfaen canoloesol
Medieval limestone villages established

Defnyddio'r Graig

The Rock Industry

Mae potensial calchfaen fel ffynhonnell ar gyfer deunydd crai gwerthfawr wedi cael ei gydnabod ers amser maith. Am ganrifoedd, roedd diwydiant yn cynnig bywoliaeth ac elw yma.


The potential of limestone as a source for valuable raw material has long been recognised. For centuries industry provided both livelihood and profit here.



Galena mwyn plwm
Galena lead ore

"Galena" by James E Petts licensed under CC BY-SA 2.0

Mwyn plwm yn ffurfio ar hyd llinell ffawt
Formation of lead ore along fault line



Metal Trwm

Filiynau o flynyddoedd yn ôl, achosodd symudiadau ar wyneb y ddaear holltau yn y calchfaen. Cododd hylifau llawn mwynau poeth, o'n ddwfn yn y ddaear, i fyny'r holltau hyn, gan grisialu'n wythiennau o fwynau plwm, a elwir yn galena. Credir mai'r Rhufeiniaid oedd y rhai cyntaf i echdynnu plwm yma, ym Mhrestatyn ac yn Helygain, i'w defnyddio mewn pibellau, plymio a chwteri. Parhaodd cloddio am blwm yn yr ardal hon tan ganol yr 20fed ganrif.

Heavy Metal

Millions of years ago, movement of the earth's surface fractured the limestone. Hot mineral-laden fluids, from deep in the earth, rose up these cracks, crystallising into veins of lead ore, called galena. Romans are thought to have been the first to extract lead here, at Prestatyn and Halkyn, for use as piping, plumbing and guttering. Lead mining continued in North East Wales until the mid 20th century.

Blynyddoedd
AD
Years AD

100

Rhufeiniaid yn cloddio am blwm ym Mhrestatyn
Romans mine lead at Prestatyn

1296

Y cofnod cyntaf o gloddio yn y
First recorded mining at Minera

Mwyngloddio yn y Mwynglawdd

Ar ochr y bryn uwchlaw Wrecsam roddodd mwyngloddio ei enw i bentref y Mwynglawdd. Ffynnodd cynhyrchiant yn y 19eg ganrif, unwaith i bympiau a yrrwyd gan stêm ddatrays problem llifogydd yn y pyllau, a achoswyd gan nentydd tanddaearol.

Yn 1864 gwnaeth gwaith plwm y Mwynglawdd elw o £60,000 ond erbyn yr 20fed ganrif, roedd cynhyrchu wedi dod yn aneconomaidd.

Mining at Minera

On the hillside above Wrexham mining gave its name to the village of Minera. Production boomed in the 19th century, once steam driven pumps had solved flooding problems, caused by underground streams. In 1864 Minera lead mines made a profit of £60,000 but by the early 20th century production had become uneconomic.

Chwarela a Chynhyrchu Calchfaen

Mae'r brynau calchfaen hyn, a gloddiwyd ers canrifoedd, yn dal i gynhyrchu agregau a'r deunydd crai ar gyfer gwneud sment. Yn eu hanterth, roedd y gweithrediadau mwyaf yn Eglwyseg a'r Mwynglawdd, yn darparu cerrig adeiladu ac, ar ôl llosgi mewn odynau, calch i wneud morter, plastr a rendrad.

Quarrying and Lime Production

Quarried for centuries, these limestone hillsides still produce aggregate and the raw material for making cement. In their heyday the largest operations were at Eglwyseg and Minera, providing building stone and, after burning in kilns, lime for construction and agriculture.



Gweithwyr yng Nghwarela Plwm y Mwynglawdd 1890au

Workers at Minera Lead Mine 1890s



1870

Mwynglawdd

Anterth y diwydiant mwyngloddio a chwarela
Peak of mining and quarrying industry

1914

Cau Gwaith Plwm y Mwynglawdd
Closure of Minera Lead Mine

Lle Arbennig ar gyfer Natur

A Special Place for Nature

Mae calchfaen yn cefnogi cymuned unigryw o blanhigion ac anifeiliaid, yn seiliedig ar yr amodau penodol sy'n gysylltiedig â'r graig hon.

Limestone supports a unique community of plant and animal life, founded on the special characteristics of this rock.

Glaswelltiroedd, Blodau gwyllt a Gloënnod Byw

Mae cynnwys llawn calsiwm y calchfaen yn creu priddoedd alcalin. Mae'r rhain yn cefnogi planhigion sy'n caru calch, glaswelltiroedd cyfoethog, wedi'u haddurno gan amrywiaeth hyfryd o flodau gwyllt yn y gwanwyn a'r haf, fel teim, y cor-rosyn cyffredin, pig-yr-aran ruddgoch a thegeirianau. Mae hwn yn gynefin perffaith ar gyfer gloënnod byw, fel y glesyn cyffredin, y gwibiwr llwyd a'r fritheg berlog. Mwynhewch y glaswelltiroedd ym Mryn Alyn, Bryn Prestatyn a Loggerheads.

Grasslands, Wildflowers and Butterflies

The high calcium content of limestone makes for alkaline soils. These support special lime loving plants, rich grassland, adorned by a wonderful array of wildflowers in spring and summer, such as thyme, common rockrose, bloody crane's-bill and orchids. This is a perfect habitat for butterflies, such as the common blue, dingy skipper and pearl-bordered fritillary. Enjoy the grasslands at Bryn Alyn, Prestatyn Hillside and Loggerheads.

Britheg Berlog
Pearl-bordered
Fritillary




Gleslyn Cyffredin
Common Blue



Pig yr Aran Waedlyd
Bloody Crane's-bill



Rhosyn y Graig
Common Rockrose



Hafan Ddelfrydol i Fywyd Gwylt

Mae clochdar y cerrig, corhedydd y waun ac ehedyddion yn trydar uwchben y glaswelltiroedd, tra bod hebogiaid yn hedfan uwchben. Mae'r cwingod yn helpu i gadw'r glaswellt yn isel. Efallai y byddwch hyd yn oed yn sylwi ar garlwm.



Hebog
Tramor
**Peregrine
Falcon**

Idyllic Home for Wildlife

Stonechat, meadow pipit and skylark chatter above the grasslands, while peregrines soar above. Rabbits help keep the greensward trim. You might even spot a stoat.

Cerddinen Wen
Llangollen
**Llangollen
Whitebeam**



Clochdar y Graig
Stonechat

Coed a Llwyni ar y Creigiau

Mae'n aml yn ymddangos fel bod coed ynn a drain gwynion yn tyfu'n syth o'r graig, wedi'u cynnal yn unig gan bocedi o bridd yn y calchfaen. Gallwch weld hyn ar Greigiau Eglwyseg, clogwyni sydd hefyd yn gartref i gerddinen brin Llangollen. Ar Fryn Prestatyn, mae meryw brodorol yn destun prosiect cadwraeth i atal ei ddiwywiad. Mae Parc Gwledig Loggerheads yn enwog am ei goetir ynn.

Trees and Shrubs on the Rocks

Ash and hawthorn often seem to grow straight out of the rock, sustained only by pockets of soil in the limestone. You can see this at Creigiau Eglwyseg, cliffs that are also the home of the rare Llangollen whitebeam. On Prestatyn Hillside, native juniper is the subject of a conservation project to arrest its decline. Loggerheads Country Park is renowned for its ash woodland.

Anturiaethau ar Galchfaen

Adventures on Limestone

Mae ein tirweddau calchfaen yn
leoedd gwyh i'w crwydro...

Our limestone landscapes are
wonderful places to explore...

Parc Gwledig Loggerheads

Mae hwn yn fan cychwyn gwyh, gan
ddatgelu llawer o agweddau ar y dirwedd
a chynnig amrywiaeth o deithiau
cerdded hyfryd. Yn ogystal â chlogwyni,
cynefinoedd glaswelltir a thystiolaeth o
fwyngloddio plwm, yn yr haf gallwch weld
yr Afon Alyn yn suddo i mewn i'r calchfaen.
Fe ddewch chi o hyd i luniaeth blasus yng
Nghaffi Florence hefyd a staff parod eu
cymorth yn y ganolfan ymwelwyr.

Loggerheads Country Park

A great starting point, revealing many
aspects of the landscape and offering a
variety of lovely walks. As well as cliffs,
grassland habitats and evidence of lead
mining, in summer you can see the River
Alyn sink into the limestone. You'll also find
delicious refreshments at Caffi Florence
and helpful staff in the visitor centre.



Teithiau Cerdded Calchfaen

Mae'r map yn dangos 5 tirluniau calchfaen
gogoneddus i ymweld â hwy ar droed.
Disgrifiwyd y teithiau ar y tudalennau
dilynol, graddwyd fel teithiau 'cymhedrol' ar
dir anwastad gyda rhai rhannau serth, yn
defnyddio ffyrdd tawel, llwybrau a thraciau, yn
aml gyda chamfeydd.

Nodwch os gwelwch yn dda fod rhai llwybrau yn defnyddio tir
mynediad agored, gall yr wyneb fynd anwastad, cymerwch
ofal, gall rhannau fod wedi cau dros dro. Mae'r amseroedd ar
gyfer y teithiau cerdded yn amcangyfrif.

Limestone Walks

This map shows five fascinating limestone
landscapes to explore on foot. The routes,
described on the next pages, are all graded
'Moderate', being on undulating land with
some steeper sections, and using quiet lanes,
paths and tracks, often with stiles.

Please note some routes use open access land and paths
with uneven surfaces, please take care, areas might
have temporary closures. All timings for the walks are
approximate.

1

Bryn Prestatyn Prestatyn Hillside



2

Bryn Gop Gop Hill



3

Bryn Alyn Bryn Alyn



4

Y Mwynglawdd Minera



5

Creigiau Eglwyseg Eglwyseg Rocks



M53

A5151

Rhualt

Tremeirchion

✦ Ysceifiog

Nannerch

A55

A494

Yr Wyddgrug
Mold



Ma

yrys

4

Bwlchgwyn

7

Rhiwabon

A539



Llwybr Cenedlaethol
Clawdd Offa
Offa's Dyke Path
National Trail

Llanfair Dyffryn
Clwyd


Graigfechan

Fertilizer

rog

Llangollen

Pontfadog





Bryn Prestatyn Prestatyn Hillside



2¹/₂ milltir
miles / **4** cilomedr
km



2 awr
hours



cymhedrol
moderate

Darganfyddwch olygfeydd panoramig a mwyngloddiau segur

Mae'r bryniau calchfaen ger yr arfordir yn cynnig golygfeydd bendigedig ar draws Gogledd Cymru. Mwynhewch nhw drwy esgyn Bryn Prestatyn, pen gogleddol Bryniau Clwyd.

Dechreuwch o'r maes parcio **1** a nodir ar y map. Mae paneli gwybodaeth yn egluro swyddogaeth y graig wrth ffurfio'r bryn hwn. Ewch ar hyd y llwybr drwy'r waliau calchfaen ac i fyny stepiau. Yna dilynwch arwyddion Llwybr Cenedlaethol Clawdd Offa i fyny'r llethr serth.

Wrth yr arwyddbost ar gyfer Gwaenysgor **2**, esgynnwch yr ychydig fetrau olaf i frig tomen gladdu o Oes y Cerrig, i fwynhau golygfeydd ysblennydd cyn belled ag Eryri.

Wrth ddychwelyd i Lwybr Clawdd Offa, mae grisiau calchfaen garw am i lawr cyn **3** llwybr bach sydd yn hawdd ei fethu er mwyn datgelu adfeilion Pant y Fachwen, lle byddai mwynwyr plwm yn aros ar un adeg.

Trowch i'r dde ar y gyffordd yn y llwybr **4**, i lawr drwy'r coed i gyrraedd y Mwynglawdd Pysgod **5**, lle adroddir hanes am gloddio plwm yn lleol. Wrth droed y goedwig, mae ffordd darmac gul yn mynd heibio i odynau calch sy'n mynd a chi yn ôl i'r maes parcio.

Discover panoramic views and derelict mines


The limestone hills near the coast offer wonderful vistas across North Wales. Enjoy them by visiting Prestatyn Hillside at the northern end of the Clwydian Range.

Start from the car park **1** marked on the map. Information panels explain the role of the rock in forming this hillside. Take the path through limestone walls and up steps. Then follow the Offa's Dyke National Trail signs steeply upward.

At the signpost for Gwaenysgor **2**, ascend the last few metres to the summit of a Stone Age burial mound, to enjoy spectacular views as far as Snowdonia.

Returning to Offa's Dyke Path, rough limestone steps descend before **3** an easily missed offshoot reveals the ruins of Pant y Fachwen, where lead miners once stayed.

Turn right at the path junction **4**, down through the trees to reach the Fish Mine **5**, where the story of local lead mining is told. At the foot of the wood a narrow tarmac road passes lime-kilns as it returns you to the car park.





Bryn Gop Gop Hill



2 filltir
miles

3 cilomedr
km



1½ awr
hours



cymhedrol
moderate

Dringwch y twmpath cynhanesyddol mwyaf yng Nghymru

Mae Bryn Gop yn esgyniad arall sy'n rhoi boddhad yn rhan ogleddol Bryniau Clwyd.

O'r maes parcio **1** yng nghanol Trelawnyd, dilynwch y ffordd i fyny'r allt ac i'r dde. **2** Ewch ar hyd y llwybr troed wedi'i ffensio ar y chwith drwy giât mochyn. Lle mae'r llwybr hwn yn cyrraedd y coetir **3**, ewch drwy giât fetel, yna'n syth i'r chwith drwy giât arall, gan fynd ar y llwybr i'r chwith i fyny'r bryn.

Yn y pen draw, mae'r llwybr yn cyrraedd sedd gyda golygfeydd ysgubol tua'r de. Ewch yn eich blaen, ac yn fuan byddwch yn dod allan **4** o'r coed trwy gât i dir agored.

Mae tomen enfawr, y mwyaf i gael ei hadeiladu gan bobl gynhanesyddol yng Nghymru, rŵan yn codi o'ch blaen. Dringwch yr arglawdd i gael teimlo pam oedd hwn yn le mor arbennig i'n cyndeidiau. Efallai ei bod yn nodi safle Ogof y Gop yn y calchfaen islaw, safle ar gyfer claddedigaethau dynol yn Oes y Cerrig.

Ewch i lawr ochr y domen ac throi i'r dde trwy giât i'r llechwedd agored. Ewch ar linell onglog tuag at Drelawnyd trwy lwyni eithin at lwybr wrth droed y llethr **5**. Ewch i'r chwith ac yn fuan croeswch gamfa i'r strydoedd sy'n arwain yn ôl i'r maes parcio.

Climb the largest prehistoric mound in Wales


Gop Hill is another rewarding ascent in the northern part of the Clwydian Range.

From the car park **1** in the centre of Trelawnyd, follow the road uphill and to the right. **2** Take the fenced footpath on the left through a kissing gate. Where this path meets woodland **3**, pass through a metal gate, then immediately left through another gate, taking the left hand path uphill.

The trail eventually reaches a seat with sweeping views to the south. Continue on the path, soon emerging from the trees through a gate onto open ground. **4**

A massive mound, the largest in Wales constructed by prehistoric people, now towers above you. Climb the embankment to gain a sense of why this place was so special for our ancestors. It may have been a marker for Gop Cave in the limestone below, a site of Stone Age human burials.

Descend the mound and bear right through a gate onto open hillside. Take an angled line towards Trelawnyd through gorse bushes to a trail at the foot of the slope **5**. Head left and soon cross a stile into streets leading back to the car park.





Bryn Alyn Bryn Alyn



**4 milltir
miles / 6 cilomedr
km**



**3 awr
hours**



**cymhedrol
moderate**

Crwydrwch bafin gyda golygfeydd gwefreiddiol

Mae Bryn Alun yn enghraifft odidog o ucheldir calchfaen, lle mae glaswelltiroedd, palmentydd a chlogwyni'n rhoi agwedd drawiadol i gopaon Bryniau Clwyd.

O faes parcio Coed Nercwys **1** dilynwch y trac llydan i mewn i'r goedwig. Ewch ar hyd y llwybr cyntaf a arwyddir i'r dde **2**, sy'n arwain at baneli arddangos sy'n dangos pwysigrwydd hanesyddol mwyngloddio plwm yma.

Ewch ar hyd y llwybr heibio i'r paneli **3**, cadwch i'r chwith yn y ddau fan lle mae'r llwybr yn fforchio. Mae llwybr y goedwig yn dod allan yn y pen draw i dir fferm bryniog, lle gellir gweld Bryn Alun o'ch blaen. Dilynwch y llwybr glaswelltog dros nifer o gamfeydd i gyrraedd y ffordd **4**. Gyferbyn, ychydig fetrau i'r chwith, mae trac wedi'i arwyddo yn arwain ymlaen i Fryn Alyn.

Ewch heibio i olion y mwynglawdd plwm, gan esgyn yn raddol. Arhoswch ar y chwith ar ddisgynfa fer cyn codi ar draws palmant calchfaen at olvgfan fwyaf blaenllaw Bryn Alyn ar 403m **5**.

Arhoswch ychydig yn yr uchelfan hon ar ben y bryn. Mwynhewch yr olygfa. Ystyriwch y gwahaniaeth rhwng y tirwedd calchfaen hwn a Bryniau Clwyd o'ch blaen.

I ddychwelyd, aildroediwch yr un llwybr.

Explore a limestone pavement with spectacular views

Bryn Alyn is a glorious example of limestone upland, where grasslands, pavements and cliffs make for spectacular views onto the summits of the Clwydian Range.


From the Coed Nercwys car park **1** follow the broad track into the forest. Take the first signposted path off to the right **2**, leading to display panels illustrating the historic importance of lead mining here.

Take the trail past the panels **3**, bearing left at each of two forks. The forest path eventually emerges into rolling farmland, where Bryn Alyn can be seen ahead. Follow the grassy path over numerous stiles to reach the road **4**. Opposite, a few metres to the left, a signed track leads onward to Bryn Alyn.

Pass lead mining remains, ascending gradually. Stay left at a short descent before rising across a limestone pavement to Bryn Alyn's foremost viewpoint at 403m **5**.

Stay a while at this hilltop eyrie. Take in your surroundings. Contemplate the difference between the Carboniferous limestone landscape beneath your feet and the Silurian mudstone scenery of the Clwydian Range ahead.

To return, simply retrace your steps.



4

Y Mwynglawdd Minera



4 milltir
miles / **6 cilomedr**
km



3 awr
hours



cymhedrol
moderate

Troediwch ar hyd y dramffordd i ddarganfod oelion diwydiannau'r gorffennol.

Roedd ardal ddeiliog y Mwynglawdd unwaith yn ganolfan i ddiwydiant trwm, yn seiliedig ar briodoledau gwerthfawr calchfaen. Roedd mwyngloddio plwm a chwareli calchfaen yn gwneud bywyd yn anodd yma.

O'r maes parcio ym Mharc Gwledig y Mwynglawdd **1**, dilynwch yr arwyddbost "golygfan" i fyny'r allt, gan fforchio i'r chwith ar llwybr glaswelltog. Ar frig y stepiau, mae cangen i'r chwith yn arwain at fwrdd arddangos daearegol lle disgrifir manylion y calchfaen lleol.

Oddi yma, mae stepiau'n arwain i lawr i hen dramffordd **2**. Trowch i'r dde ar y llwybr gwastad. Ar ôl dilyn toriadau drwy'r coed, mae'n fwy amlwg ei fod yn arglawdd rheilffordd.

Mae'r llwybr yn croesi ffyrdd yn **3** a **4** cyn dod allan wrth ymyl tai ar ochr y clogwyni **5**. Cadwch at y llwybr o'ch blaen, gan gyrraedd mynedfa eang hen chwarel **6**.

Gallwch gael golygfa ardderchog o'r amffitheatr enfawr hon o echdynnu calchfaen drwy ddilyn y llwybr troed a arwyddir ar draws pont bren i'r chwith. Esgynnwch drwy'r coed i ddod allan yn uchel ar ochr y chwarel **7**.

Dychwelwch drwy aildroedio'r un llwybr, gan gymryd gofal i fynd drwy'r giât bellaf i'r dde ar ôl y tai ar ochr y clogwyn **5**.

Trek along a tramway to discover a lost industrial world

Leafy Minera was once a centre of heavy industry, based on the valuable properties of limestone. Lead mining and limestone quarrying made for a tough life here.


From the car park at Minera Country Park **1**, follow the "viewpoint" fingerpost uphill, forking left onto a grassy trail. At the top of some steps, an offshoot left leads to a geological display board where details of the local limestone are described.

From here steps lead down to a former tramway **2**. Turn right onto the level path. After winding through trees, this becomes a more obvious railway embankment.

The trail crosses roads at **3** and **4** before emerging onto some houses set against cliffs **5**. Keep to the path ahead, reaching the broad entrance of a former quarry **6**.

You can gain an excellent view of this vast amphitheatre of limestone extraction by taking the signed footpath across a wooden bridge to the left. Ascend through the trees to emerge high on the quarry side **7**.

Return by retracing your steps, taking care to pass through the rightmost gate after the cliff-side houses **5**.



5

Creigiau Eglwyseg Eglwyseg Rocks



2¹/₂ milltir
miles / **4** cilomedr
km



2 awr
hours



cymhedrol
moderate

Troediwch y terasau glaswelltog yng nghanol y golygfeydd mwyaf mawreddog

Mae'r clogwyni calchfaen ysblennydd uwchlaw Llangollen yn un o ryfeddodau harddaf Prydain.

O'r maes parcio **1**, sydd â mainc, esgynnwch lethr hen chwarel mewn gyli bas. Yn fuan, mae hwn yn ymuno **2** â llwybr sy'n esgyn drwy barhau'n raddol ar draws y bryn.

Dilynwch hwn wrth iddo ddod yn deras glaswelltog, wrth ymyl creigiau o strata calchfaen a roddodd ei ymddangosiad grisïog trawiadol i Greigiau Eglwyseg.

Gallwch weld ble y cafodd y bryn dramatig hwn ei gloddio, gan adael clogwyni llyfn. Y tu allan i'r tymor nythu adar dyma gynefin y dringwyr creigiau.

Ewch ar hyd y gyli sy'n bylchu'r clogwyn **3**, yna dilynwch ei llwybr creigiog trwy redyn i arwyddbost unig **4**. Trowch i'r dde a dilyn y llwybr heb ei arwyddo ar hyd y clogwyn. Wrth edrych dros Dinas Brân, gyda'i gastell adfeiledig a bryngaer o Oes yr Haearn, mwynhewch olygfeydd panoramig syfrdanol o Fynyddoedd y Berwyn a Llantysilio.

Cadwch at y clogwyn wrth i'r llwybr fynd am i lawr. Cyn cyrraedd y ffordd, ewch yn ôl ar eich hun **5** trwy hen chwarel. Yna dilynwch lwybr igam-ogam ysgafn i ddychwelyd ar hyd y llethr cychwynnol.

Traverse grassy terraces amid the grandest scenery

The magnificent limestone cliffs above Llangollen are one of Britain's scenic wonders. Experience them at first hand via this straightforward mountain trail.

From the large lay-by **1**, which has a bench, ascend a former quarry incline in a shallow gully. This soon joins **2** a gently rising path which continues across the hillside.

Follow this as it meets a former tramway, now a grassy terrace, beside crags of limestone strata which give Creigiau Eglwyseg its spectacular stepped appearance.

You can see where this dramatic hillside has been quarried, leaving smooth cliffs. Outside of bird nesting season these are the domain of rock climbers.

Enter the gully that breaches the cliff **3**, then follow its rocky trail up through bracken to a lonely finger post **4**. Turn right and take the unsigned route along the clifftop. Looking over Dinas Brân, with its ruined castle and Iron Age hillfort, enjoy breathtaking panoramas of the Berwyn and Llantysilio Mountains.

Keep to the clifftop as the trail descends. Before reaching the road, double back **5** through an old quarry. Then follow a gentle zig-zag to return via the initial incline.

Sut i gyrraedd yma

How to get here

-  Rheilffordd Railway
-  Traffordd Motorway
-  Prifffordd Main Road
-  AHNE
-  AONB

 **0871 200 22 33**
www.travelinecymru.nhs.uk

TravelineCymru
Gwybodaeth teithio didrafferth
Trouble free travel info



Cadwch yn Ddiogel a Dilynwch y Côd Cefn Gwlad

Wrth grwydro, cofiwch edrych ar ragolygon y tywydd cyn hynny, sicrhau bod gennych y cyfarpar priodol.

Mae **Mapiau Explorer 265** (Brynau Clwyd) a **256** (Wrecsam a Llangollen) yr Arolwg Ordnans yn berthnasol i'r ardal hon.

Stay Safe and Follow the Countryside Code

Check the weather forecast and ensure you are appropriately equipped.

Ordnance Survey **Explorer Maps 265** and **256** cover this area.

- Byddwch yn ddiogel – cynlluniwch o flaen llaw a dilynwch unrhyw arwyddion
- Gadewch glwydi ac eiddo fel rydych chi'n eu cael nhw

- Gwarchodwch blanhugion ac anifeiliaid, ac ewch a'ch sbriel gartref
- Cadwch eich ci dan reolaeth dynn
- Byddwch yn ystyriol o bobl eraill



Côt Cefn Gwlad

Parchwch • Gwarchodwch • Mwynhewch

Countryside Code

Respect • Protect • Enjoy

- Be safe – plan ahead and follow any signs
- Leave gates and property as you find them

- Protect plants and animals, and take your litter home
- Keep dogs under close control
- Consider other people



Brynau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley

Ardal a Bwrdeistref Naturiol Eiddolaidd
Area of Outstanding Natural Beauty



Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Parc Gwledig Loggerheads,
Yr Wyddgrug, Sir Dinbych. CH7 5LH

Loggerheads Country Park,
NR Mold, Denbighshire. CH7 5LH.

01824 712738



Os ydych wedi mwynhau y llyfryn, pam ddim ymuno gyda Chyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
www.friends.cymru

If you have enjoyed this booklet, why not join the Friends of the Clwydian Range and Dee Valley
www.friends.cymru

www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk
www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk

Devised and written by Ivor Coleman
(www.hi-clarity.co.uk)
Designed and illustrated by David Goodman
(www.david.goodman.graphics)